

Gwelliannau i ffordd bresennol yr A5025



Pam fod angen gwella'r A5025

Mae ein cynigion ar gyfer yr A5025 yn cynnwys gwneud gwelliannau i rannau presennol o'r ffordd (yr hyn a alwn yn 'waith ar-lein'). Mae angen hyn yn arbennig lle na allai dau gerbyd nwyddau trwm (HGV) neu ddau fws basio ei gilydd yn ddiogel.

Bydd y gwaith uwchraddio'n gymorth i atal mwy o oedi yn y dyfodol. Efallai fod wyneb y ffordd yn edrych yn iawn, ond mae'r haenau gwaelodol mewn cyflwr gwael ar y rhan fwyaf o'i hyd. Mae'n debygol y bydd y ffordd yn dechrau cracio neu ymsuddo pan fydd lefelau traffig yn cynyddu. Felly, mae'n well gwneud y gwaith yma nawr pan mae'r lefelau traffig yn is nag y byddant pan fydd Wylfa Newydd wrthi'n cael ei adeiladu.

Amseru

Gobeithiwn gyflwyno cais cynllunio ar gyfer y gwelliannau i'r ffordd bresennol ('y gwaith ar-lein' ddiwedd 2016. Disgwylwn i'r gwaith hwn gymryd oddeutu dwy flynedd i gyd.

Mae gwaith arall i adeiladu darnau newydd o ffordd ('y gwaith oddi ar lein'), yr ydym wedi ymgynghori yn ei gylch yn flaenorol, wedi'i gynllunio i ddechrau ganol 2019 a byddai'n cymryd tua 18 mis i'w gwblhau.

Gwelliannau i ffordd bresennol yr A5025

Mathau o waith

- **Lledu**

Mae'r A5025 yn amrywio o ran lled rhwng y Fali a Wylfa. Mae angen lledu rhannau o'r ffordd er mwyn i gerbydau allu symud yn fwy diogel. Yr egwyddor yw cael lled cyffredinol o 7.3m ar ei hyd i gyd, ond mae nifer fechan o leoliadau lle nad yw hyn wedi bod yn bosib.



- **Ffyrdd Mynediad Preifat**

Fel arfer, mynedfa breifat yw mynediad at safle nad yw'n rhan o'r rhwydwaith priffyrdd ei hun. Yn achos yr A5025, tramwyfeydd yw'r rhain gan mwyaf (nid ydynt yn cynnwys mynedfeydd amaethyddol). Mae pob ffordd fynediad breifat wedi cael ei hasesu i weld sut mae ein dyluniad newydd yn effeithio arni. Lle bo'n briodol, rydym wedi edrych ar welliannau ac wedi cysylltu â thirfeddianwyr y byddai hyn yn effeithio arnynt.

- **Ailadeiladu**

Mae hyn yn golygu cael gwared ar yr haenau ar wyneb y briffordd a gosod haenau newydd. Bydd y dyfnder y caiff y ffordd ei hailadeiladu yn dibynnu ar gyflwr y ffordd mewn man penodol. Rydym wedi cynnal profion i asesu cyflwr y gwahanol haenau o'r ffordd er mwyn ein helpu i ddeall hyn.

Bydd angen compownd i drin y deunyddiau sy'n cael eu symud oddi ar y briffordd bresennol a'u hailgylchu ar gyfer arwyneb y ffordd newydd. Mae lleoliad y compownd yn dal i gael ei ystyried.

Bydd ailadeiladu'r briffordd yn gwneud yn siŵr na fydd y ffordd yn cracio nac yn torri yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd pan fydd mwy o draffig yn defnyddio'r A5025.

- **Rhoi wyneb newydd**

Mae hyn yn golygu rhoi wyneb newydd ar y ffordd bresennol drwy daenu bitwmen poeth ar y ffordd ac wedyn ei gorchuddio â graean a'u rholio i mewn i'r bitwmen. Mae hyn yn rhoi arwyneb ffordd o ansawdd gwell ar hyd y llwybr ac yn helpu'r ffyrdd presennol i ymdopi â chynnydd dros dro yn lefelau'r traffig tra bydd yr adrannau oddi ar lein, neu ffyrdd osgoi, yn cael eu hadeiladu.

Bydd rhoi wyneb newydd ar y ffordd yn ymestyn ei hoes, a bydd yn darparu budd hirdymor i drigolion lleol.



Gweithio'n lleol

- **Contractwyr Lleol**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Horizon wedi gweithio gyda'i gilydd i sefydlu fframwaith ar gyfer contractwyr adeiladu. Mae hyn wedi cael ei strwythuro fel bod y pecynnau gwaith yn cael eu dosbarthu yn ôl gwerth, er mwyn i ystod eang o gwmnïau allu tendro am y gwaith.

- **Cyswllt Cymunedol**

Rhagwelir y bydd yna berson cyswllt cymunedol pwrpasol ar gyfer gwelliannau i'r briffordd, a hynny'n rhan o'r cytundebau. Gan y byddant yn gweithio i'r contractwr, bydd gan y person yma wybodaeth fanwl am y gwaith adeiladu, sut y caiff ei wneud a bydd yn y sefyllfa orau i ymdrin ag unrhyw ymholiadau neu bryderon.

Evch i'n gwefan - www.horizonnuclearpower.com/ymgyngoriad - i gael mwy o wybodaeth am ein cynigion.